| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Cynllunio** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **15 Hydref 2014** |
| **Adroddiad Gan:** | **Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Rheolwr Datblygu** |
| **Teitl:** | **Diweddariad ar Achosion Cydymffurfiaeth Cynllunio** |

---

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad yn rhoi diweddariad i Aelodau ar achosion cydymffurfiaeth cynllunio. Nid yw'r rhestr o achosion sydd wedi cael eu cynnwys yn y tabl ynghlwm yn holl gynhwysfawr ond maent yn rhai a fyddai wedi'u hawdurdodi o'r blaen gan y Pwyllgor. Yn ogystal, mae Swyddogion wedi cynnwys achosion maent yn credu sydd o ddiddordeb cyffredinol.

## 2. Beth yw'r rheswm dros wneud yr adroddiad hwn?

Dan y Cynllun Dirprwyo Cynllunio presennol, rhoddwyd awdurdod i Swyddogion fwrw ymlaen ag achosion cydymffurfiaeth cynllunio dan rymoedd a ddirprwywyd. Mae hyn yn golygu na chyflwynwyd unrhyw adroddiadau i'r Pwyllgor Cynllunio dros y 12 mis diwethaf yn gofyn am awdurdod gan Aelodau i gymryd camau gorfodi cynllunio ar achosion penodol. Bydd Swyddogion yn cysylltu yn uniongyrchol ag Aelodau lleol ar achosion yn eu hardaloedd cyn bwrw ymlaen i gymryd camau gorfodi ffurfiol.

Gan hynny, teimlir ei bod yn bwysig darparu adroddiad diweddaru blynyddol i'r Pwyllgor Cynllunio ar achosion penodol o bwys. Bydd yn dal modd i Aelodau gysylltu'n uniongyrchol â Swyddogion cydymffurfio unigol ar achosion cydymffurfio unigol.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod yr Aelodau'n nodi cynnwys yr adroddiad ac yn codi unrhyw faterion ynglŷn ag achosion penodol gyda Swyddogion perthnasol y tu allan i'r Pwyllgor Cynllunio.

## 4. Manylion am yr adroddiad

### Cefndir

Mae 3 swyddog o fewn y Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd sy'n ymwneud â gwaith Cydymffurfiaeth Cynllunio ar hyn o bryd.

- Wayne Williams (yn gweithio Mer, Iau, Gwe). Yn ymwneud yn bennaf a gwaith prosiect ar flaenoriaethau'r gwasanaeth, e.e. prosiect Tai Amlbreswyl, gwaith apêl.
- Jill Daniel (yn gweithio Llun, Maw, Mer, Iau). Yn ymwneud â phob gwaith cydymffurfiaeth gan ganolbwyntio ar waith yn ymwneud â safleoedd dolur llygad a gwaith arall sy'n flaenoriaeth i'r gwasanaeth e.e. Prosiect Safleoedd Carafanau a Phrosiect Coedwigaeth.
- Bryn Bolton (yn gweithio Llun, Maw, Mer, Iau, Gwe). Yn ymwneud â phob gwaith cydymffurfiaeth ar draws y Sir.

Gellir cysylltu â'r Swyddogion uchod ar 01824 706727 neu ar cynllunio@sirddinbych.gov.uk.

Gall gwaith Cydymffurfiaeth Cynllunio fod yn gymhleth a chymryd amser. Mae angen ymchwilio'n drylwyr i unrhyw achosion posibl o dorri rheolau cynllunio cyn cymryd camau ffurfiol ac mae angen creu dogfennau cyfreithiol.

Rhaid i swyddogion flaenoriaethu gwaith a rhaid iddynt ddilyn egwyddorion a amlinellir yng nghanllawiau Llywodraeth Cymru sy'n nodi y dylid ond cymryd camau gorfodi ffurfiol fel dewis olaf.

Gan hynny, mae llawer o'u gwaith yn cynnwys trafod rhwng cwynwyr a rhai a allai fod yn torri rheolau cynllunio, gan geisio datrys unrhyw fater heb fod angen cymryd camau ffurfiol. Cynhaliwyd sesiynau hyfforddi Aelodau ar fater cydymffurfiaeth cynllunio gan y gall fod yn faes cymhleth a dadleuol.  Bydd cwynwyr yn aml yn teimlo fod eu mater yn flaenoriaeth ac y dylid delio ag o cyn pob mater arall. Dyma pan fod y Gwasanaeth wedi datblygu rhestr o safleoedd sy'n ddolur llygad a blaenoriaethau gwasanaeth mewn ymgais i ganolbwyntio amser Swyddogion ar fynd i'r afael â'r materion pwysicaf a mwyaf niweidiol.

Dylid nodi hefyd y bydd Swyddogion yn canolbwyntio ar fynd i'r afael ag achosion tir blêr mor fuan â phosibl o ystyried y flaenoriaeth gorfforaethol Strydoedd Glân a Thaclus.

Mae'r tabl sydd ynghlwm **(Dogfen 1)** yn rhestru nifer o achosion y mae Swyddogion wedi bod yn ymwneud â nhw ac mae'n ddigon eglur. Anogir Aelodau i gysylltu'n uniongyrchol â'r Swyddogion os hoffent gael gwybodaeth fanylach ar achosion penodol.